

**Ar drywydd llythrennedd
Llafaredd ar draws y
cwrwclwm**

		Map llwybrau ADD	Camau A	Camau B	Camau C
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD).	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleu eu dewis i oedolyn sylwgar [ADD 37] Rhannu sylw [ADD 40] Cyfleu 'mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol [ADD 28] 	<ul style="list-style-type: none"> rhoi symbol/llun i gynrychioli eitem a ddymunir (nid yw'n gwahaniaethu rhwng yr eitem ei hun a'r hyn sy'n ei chynrychioli) pwytio at eitem a ddymunir neu eitem o ddiddordeb (sy'n weladwy ond y tu hwnt i'w cyrraedd) a lleisio defnyddio cyfuniad o ystumiau a dulliau mwy ffurfiol o gyfathrebu (arwyddion/iaith lafar) er mwyn cael sylw, dweud 'na' a diwallu eu hanghenion defnyddio ychydig iawn o eiriau/arwyddion neu symbolau cyfarwydd copïo gweithredoedd mewn gemau gweithred syml (e.e. <i>mae Seimon yn dweud ...</i>) gan roi cynnig ar weithred o ryw fath pan fydd oedolyn yn defnyddio geiriau yn unig 	<ul style="list-style-type: none"> rhoi symbol/llun er mwyn cael eitem gyfatebol a ddymunir cyfathrebu'n bennaf ynghylch gwrthrychau, pobl neu luniau cyfarwydd sydd yno, ond gallant hefyd gyfeirio at y ffaith eu bod yn absennol defnyddio geiriau/arwyddion/symbolau unigol a rhai brawddegau dwy ran, e.e. <i>i ddweud eu bod am ailadrodd rhywbeth neu am i rywbeth ddigwydd eto</i> defnyddio geiriau/arwyddion unigol a nifer cynyddol o gymalau byr (e.e. <i>'wedi gorffen', 'ga i ddiod'</i>) yn bennaf er mwyn mynegi eu dymuniadau neu eu hanghenion eu hunain lleisio neu bwysu swits i chwarae 'rhan' sydd wedi'i recordio, pan ddaw eu tro mewn 'drama'/cyflwyniad ailadroddus 	<ul style="list-style-type: none"> dod o hyd i symbol/llun o eitem a ddymunir a'i ychwanegu at gymal ar strip brawddeg, cyfrifiadur neu gyfrifiadur llechen cyfathrebu ynghylch storïau cyfarwydd a chwarae symbolaidd, yn ogystal â phobl, lleoedd a digwyddiadau o'u profiad ehangach defnyddio cymalau dau a thri gair yn rheolaidd er mwyn cyfleu diddordebau, gwneud sylwadau, rhoi gwybodaeth a gofyn cwestiynau er mwyn cael gwybodaeth syml/benodol deall a defnyddio hyd at 50 o eiriau/arwyddion/symbolau rhoi cynnig ar gynrychioli pethau/anifeiliaid ac ati mewn gweithgareddau chwarae rôl wedi'u strwythuro
	Gwrando	<ul style="list-style-type: none"> Newid ymddygiad wrth ymateb i ddigwyddiad diddorol gerllaw [ADD 25] 	<ul style="list-style-type: none"> dangos eu bod yn deall iaith lafar (ond yn dibynnu'n helaeth ar gliwiau gweledol ac ar gliwiau eraill o fewn y cyd-destun uniongyrchol) dangos eu bod yn deall ychydig o eiriau/arwyddion am wrthrychau neu bobl gyfarwydd 	<ul style="list-style-type: none"> gwrando ac ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a ategir gan ystumiau, e.e. <i>'dos/cer i nôl dy gôt'</i> dangos eu bod yn deall hyd at 50 o eiriau/arwyddion/symbolau mewn cyd-destunau pendant yn bennaf ymateb yn briodol i geisiadau syml lle mae'n rhaid newid lleoliad gwrthrychau neu eu trosglwyddo i bobl 	<ul style="list-style-type: none"> dangos eu bod wedi gwrando ar eraill drwy ddewis lluniau perthnasol o gasgliad gwrando ar ganeuon, rhigymau a storïau a mynegi rhywfaint o ddiddordeb ymateb yn briodol i geisiadau syml sy'n cynnwys priodoleddau (e.e. <i>mawr, budr</i>), rhagenwau meddiannol (e.e. <i>fj, dy</i>) ac arddodiaid (e.e. <i>yn, ar, o dan</i>)
	Cydweithio a thrafod	<ul style="list-style-type: none"> Cychwyn gêm gymdeithasol [ADD 33] 	<ul style="list-style-type: none"> cymryd eu tro mewn gweithgaredd grŵp. 	<ul style="list-style-type: none"> gwrando/gwyllo am ysgogiad mai 'eu tro nhw' yw hi, pan na cheir trefn syml o gymryd tro 'mewn cylch'. 	<ul style="list-style-type: none"> cychwyn 'sgwrs' ac ailadrodd geiriau neu gymalau os nad yw'n eu deall.

Ar drywydd llythrennedd

Darllen ar draws y cwricwlwm

Map llwybrau ADD		Camau A	Camau B	Camau C	
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD).	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu'n fwriadol ar amgylchedd pob dydd [ADD 24] Rhannu sylw [ADD 40] 	<ul style="list-style-type: none"> dangos sylw cynyddol i rai llyfrau, gan roi llyfrau eraill i'r naill ochr chwilio am eitemau 'cynrychioliadol', e.e. <i>lluniau, ffotograffau, llyfrau cyffyrddol/codi dalen, ac ati</i> dangos diddordeb wrth i oedolyn ddarllen stori, gan edrych ar y llyfr, ei gyffwrdd a'i drin a'i drafod ar brydiau 	<ul style="list-style-type: none"> cyflwyno'u hoff lyfr i oedolyn er mwyn i'r oedolyn ddarllen y llyfr iddynt dal llyfr neu'n ei droi ar i fyny canfod eu henw eu hunain mewn amrywiaeth o fannau yn yr ystafell ddsbarth pwyntio at lun o gymeriad mewn stori gyfarwydd paru unigolyn cyfarwydd â ffotograff clir o'r unigolyn hwnnw 	<ul style="list-style-type: none"> trin a thrafod llyfr, gan droi'r tudalennau o'r blaen i'r cefn yn bennaf, ac edrych arnynt â diddordeb edrych ar y dudalen chwith mewn llyfr cyn edrych ar y dudalen dde paru geiriau cyfarwydd iawn ac adnabod ychydig o lythrennau penodol, e.e. <i>lythrennau o'u henw eu hunain</i> 'darllen' llinell amser o ddarluniau neu symbolau ac yn dweud beth fydd yn digwydd canfod eitem a ddymunir drwy archwilio/dehongli labeli
	Darllen a deall	<ul style="list-style-type: none"> Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, eu bod yn well ganddynt eitemau nad ydynt yn bresennol [ADD 41] 	<ul style="list-style-type: none"> lleisio mewn ymateb i ran arbennig o stori gyfarwydd gwrando, gyda diddordeb, ar synau a recordiwyd ar swits 'cam wrth gam', neu ar stori lafar ar gyfrifiadur; defnyddio swits neu sgrin gyffwrdd i ailadrodd synau a symud y stori ymlaen 	<ul style="list-style-type: none"> paru eitemau mewn sach stori â chymeriadau, lleoedd neu ddigwyddiadau mewn stori gyfarwydd iawn creu swm neu iaith lafar sy'n cyfateb i lun mewn stori gyfarwydd, e.e. <i>dewis swits (o blith dau) a'i bwysio i chwarae'r swm priodol</i> defnyddio gair (llafar) neu ddewis gwrthrych neu symbol i 'ddisgrifio' nodwedd a ddarlunnir mewn llyfr stori 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio lluniau i roi digwyddiadau allweddol (tri ohonynt) yn eu trefn mewn stori gyfarwydd dilyn cyfarwyddiadau dau gam syml sydd wedi'u 'hysgrifennu' ar ffurf lluniau neu symbolau cyfeirio at brint yn yr amgylchedd neu roi sylw arno, e.e. <i>labeli, hysbysiadau</i> cynnig rhywfaint o wybodaeth am stori gyfarwydd
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleu 'mwy!'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol [ADD 28] Rhannu sylw [ADD 40] 	<ul style="list-style-type: none"> dangos ymateb penodol i agwedd synhwyrdd ar stori adnabyddus, e.e. <i>chwerthin a chyffro mewn golygfa frwydr, anesmwythder wrth glywed cerddoriaeth 'iasol'</i> rhagweld patrwm sy'n ailadrodd mewn stori, e.e. <i>gwenu ar 'ffi, ffei, ffo, ffym'</i>. 	<ul style="list-style-type: none"> efelychu (e.e. <i>copio mynegiant wyneb</i>) neu ddangos empathi (e.e. <i>o!</i>) wrth ymateb i ryw beth penodol sy'n digwydd i gymeriad mewn stori gyfarwydd dangos plaser pan fydd oedolyn yn dechrau darllen un o'u hoff storiâu, gan ymateb ar adegau allweddol a dangos dealltwriaeth pan fydd wedi dod i ben edrych ar un neu ddau o'u hoff lyfrau lluniau cyfarwydd (neu gyfrwng synhwyrdd cyfatebol) gydag oedolyn, gan roi sylw i agweddau penodol y bydd yr oedolyn yn cyfeirio atynt yn y llun. 	<ul style="list-style-type: none"> mynegi mewn rhyw fodd neu'i gilydd (o'u hysgogi) eu hagwedd bersonol tuag at stori neu ddiddordeb mewn stori sydd newydd gael ei darllen, e.e. <i>hoffi/ddim yn hoffi, adalw digwyddiad penodol, ac ati</i> edrych ar a chynnal diddordeb mewn testunau gyda/heb oedolyn.

**Ar drywydd llythrennedd
Ysgrifennu ar draws y
cwrwclwm**

		Map llwybrau ADD	Camau A	Camau B	Camau C
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD).	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	<ul style="list-style-type: none"> Rhannu sylw [ADD 40] Ymwybyddiaeth o ddibyniaeth [ADD 26] 	<ul style="list-style-type: none"> edrych ar/cydnabod eu 'llun' pan fydd oedolyn yn siarad am yr hyn y maent wedi'i wneud 'lleoli'r' sgriblo o fewn gofod diffiniedig (o fewn terfynau'r dudalen neu ar ran neilltuol o'r dudalen) gan ddangos rheolaeth weledol gynyddol cyffwrdd llun neu symbol er mwyn cael gwobr weledol neu glywedol ar y gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur llechen (yn gallu canolbwyntio ar lun fel 'targed' ond mae'n bosib na ellir gwahaniaethu rhwng yr hyn a gynrychiolir gan wahanol luniau) 	<ul style="list-style-type: none"> rhannu eu 'llun' wrth ryngweithio ag oedolyn dewis symbol neu lun unigol (o blith dau new fwy) i ddisgrifio rhywbeth sydd newydd ddigwydd cau rhai llinellau wrth sgriblo (gan greu ffurfiau sy'n ymddangos fel siapiau) dewis llun neu symbol (o blith dau neu fwy) i gyfleu neges mewn meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur llechen 	<ul style="list-style-type: none"> dweud rhywbeth am eu llun neu newyddion y gall oedolyn ei ysgrifennu defnyddio marc(iau) i labelu eu gwaith eu hunain ysgrifennu rhai llythrennau o'u henw eu hunain (gall eu ffurf fod yn anghonfensiynol) dewis llun neu symbol i greu cymal byr gan ddefnyddio meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu gyfrifiadur llechen
	Strwythur a threfn	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni dwy weithred wahanol yn eu trefn i gael gwobr [ADD 35] 	<ul style="list-style-type: none"> dyfalbarhau i wneud marciau er mwyn cynhyrchu canlyniad (sy'n ymddangos fel pe bai ar hap) 	<ul style="list-style-type: none"> sgriblo i gynhyrchu eu 'llun' eu hunain ac yn dechrau priodoli ystyr iddo 	<ul style="list-style-type: none"> dewis dau neu fwy o symbolau mewn dilyniant i gyfleu 'beth ddigwyddodd gyntaf ... ac wedyn', a'u defnyddio i rannu gwybodaeth ag oedolyn dangos diddordeb pan fydd oedolyn yn ysgrifennu neu'n darllen eu newyddion/stori yn ôl; cadarnhau mai dyna'r hyn y maent am ei ddweud
Ysgrifennu'n gywir	laith				
	Llawysgrifen Cystrawen Atalnodi Sillafu	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu'n fwriadol ar amgylchedd pob dydd [ADD 24] Gwneud marciau dros arwynebedd mawr, e.e. yn symud y fraich gyfan [ddim ar fap llwybrau ADD ond yn berthnasol] 	<ul style="list-style-type: none"> arbrofi drwy wneud marciau gan ddefnyddio rhannau'r corff, e.e. y traed a'r dwylo gafael mewn eitemau a dechrau defnyddio'r bysedd i wneud marciau (e.e. mewn tywod gwlyb, ewyn, ac ati), gan ddatblygu i sgriblo ar bapur. 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio'r llaw a ffafirir yn fwy cyson wrth wneud marciau, gan weithiau ddefnyddio offeryn (wedi'i addasu). 	<ul style="list-style-type: none"> rhoi cynnig ar amrywiaeth o offer i wneud marciau a siapiau ar bapur neu ar ddeunydd priodol arall ceisio dargopïo siapiau a llythrennau mawr cynnwys rhai siapiau tebyg i lythrennau, neu ffurfiau tebyg i eiriau (gyda bylchau rhyngddynt), wrth dynnu llun tynnu rhai lluniau cynrychioliadol, e.e. person neu anifail.